*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
***RHONDDA CYNON TAF***
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Jess Daniel - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd ac Ymgysylltu (07385401877)

Bydd cyfarfod hybrid o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 5ED HYDREF, 2023** am **3.00 PM.**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 3 HYDREF 2023, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.
MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli

datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4. COFNODION 17.08.23**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 17.08.23 yn rhai cywir.

**5 - 10**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**5. CAIS RHIF: 23/0350**

Adeiladu garej ar wahân a man parcio preifat cysylltiedig (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 07/07/23).
**TIR I'R GORLLEWIN O WILLOWS FARM, FFORDD Y RHIGOS, RHIGOS, ABERDÂR, CF44 9UD**

**11 - 20**

**6. CAIS RHIF: 23/0514**

Datblygiad preswyl o 22 o fflatiau ag un a dwy ystafell wely, gyda gwaith tirlunio, gwaith trin ffiniau a man parcio cysylltiedig.
**SAFLE'R HEN GLWB CYMDEITHAS Y LLYNGES FRENHINOL, 233 STRYD Y LLYS, TONYPANDY, CF40 2RF**

**21 - 42**

**7. CAIS RHIF: 23/0623**

Newid defnydd o siop (A1) i fwyty gyda chyfleusterau gwerthu bwyd poeth i'w fwyta oddi ar y safle (A3) gan gynnwys gosod ffliw awyru ac offer echdynnu.
**123 CILGANT Y GWEUNDIR, BEDDAU**

**43 - 52**

**8. CAIS RHIF: 23/0727**

Newid defnydd yr ardal o gymysgedd o ardd ac amaethyddiaeth i ardal ceffylau. Cynnig i newid lefel a deunydd y ddaear i ddarparu draenio

rhydd mewn cae hyfforddi ceffylau sydd i'w weld ar y cynlluniau.
**FFERM PANTGLAS, CAE PANTGLAS, YNYSMAERDY, PONT-Y-CLUN, CF72 8GX**

**53 - 66**

**CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

**9. CAIS RHIF: 22/1261**

Newid defnydd i droi sied gwartheg yn uned breswyl. (Derbyniwyd Asesiad ac Arolygon Clwydo Ystlumod rhagarweiniol ar 17/8/22)
**GORLLEWIN CAERLAN, STRYD YR YSGOL, LLANTRISANT, PONT-Y-CLUN, CF72 8EN**

**67 - 76**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**10. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 28/08/2023 – 22/09/2023.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda Rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

**77 - 94**

**11. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw eitemau sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**
**Cylchrediad: -**

**Aelodau o’r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd W Lewis)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd A Dennis, Y Cynghorydd S Emanuel,
Y Cynghorydd D Grehan, Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd M Powell,
Y Cynghorydd J Smith, Y Cynghorydd L A Tomkinson and Y Cynghorydd R Williams

Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Uwch Beiriannydd